Gweithgareddau Darllen

Lefel 5

“Dysgu sut i ddarllen yw’r sylfaen i ddyfodol addysgol llwyddiannus….” ESTYN

Dyna yw’r nod! Yma ceir nifer o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddatblygu sgiliau eich disgyblion gan ganolbwyntio’n benodol ar ddatblygu eu dealltwriaeth o’r hyn a ddarllenant. Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i ddewis a dethol o’u plith yn ôl anghenion eich disgyblion. Ar ddechrau’r gweithgareddau ceir tudalen gynnwys sy’n nodi’r sgiliau penodol a ganolbwyntir arnynt yn deillio o’r Cwricwlwm Cenedlaethol.

CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Darllen

Darllen

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio strategaethau amrywiol, *e.e. ffonics, adnabod geiriau*, fel bo'r angen, er mwyn datblygu fel darllenwyr
2. darllen eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill:
   - a yn hyderus
   - b yn ystyrlon
   - c yn rhugl
   - ch gyda mwynhad
3. defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau gan gynnwys:
   - a cip ddarllen
   - b llithr ddarllen
   - c craff ddarllen
   - ch rhagfynegi
   - d defnyddio cyd-destun a gwybodaeth o iaith i ganfod yr hyn sydd ymhlyg mewn testun
4. adnabod nodweddion gwahanol genres o ran trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad; sylwi ar y modd y gellir creu effeithiau drwy ddyfeisiau orgraff, sain a gair a gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
5. ymateb yn ddeallus, yn glir ac mewn modd priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r:
   - a plot
   - b digwyddiadau
   - c cymeriadau
   - ch syniadau
   - d geirfa
   - dd arddull
   - e cywair
   - f cyflwyniad
   - ff ffurf

   gan gynnig sylwadau neu farn a defnyddio termau perthnasol
6. chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio systemau trefnu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys TGCh, *e.e. yr wyddor, mynegeion, catalogau*
7. defnyddio'r wybodaeth o iaith a ddaw o'u darllen i:
   - a atgyfnerthu'r iaith a gyflwynwyd iddynt
   - b datblygu dealltwriaeth o strwythur yr iaith
   - c deall sut y mae ystod o atalnodi yn gymorth i gyfleu ystyr
8. darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ac ailadrodd y darnau y cafwyd blas arnynt; dysgu darnau ar y cof
9. ystyried sut y mae testunau'n newid wrth eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar
2. darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen:
   - a gyda chefnogaeth
   - b yn annibynnol
   - c fesul pâr
   - ch mewn grŵp
   - d ar goedd

   a gwrando gan ddilyn y print
3. profi amrywiaeth o destunau a ffurfiau gan gynnwys:
   - a barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
   - b deunydd sy'n cynnig her
   - c deunydd sy'n ehangu'r gorwelion a'r meddwl
   - ch deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth a deunydd cyfeiriol, gan gynnwys print y cyfryngau a deunydd cyfrifiadurol
   - d detholiadau a thestunau cyflawn
   - dd deunydd sy'n cynnwys ystod o nodweddion o ran strwythur a threfn.

Teitl	Ffurf	Sgiliau Darllen	Tudalen(nau)
Rhai Geiriau	Barddoniaeth gyfoes	3c, 3d, 4, 5, 7a	4
Rwy'n gwybod	Barddoniaeth gyfoes	3c, 3d, 4, 5, 7a	5
Ifan Jones Evans	Cyfweliad	3c, 3d, 4, 5f, 5ff, 7b, 9	6,7
Meinir Gwilym	Cyfweliad	3c, 3d, 4, 7a	8,9
Elan a Siwan	Llythyron	3c,3d, 4, 5d, 7a	10,11,12
Alff Boswel	Portread	3c, 3d, 4, 5c, 5d, 7b	13,14
Crempog Cip	Rysait	3c, 4, 6, 7b	15,16
Chwarae'n Troi'n Chwerw	Stori	3c, 3d, 4, 4a, 5b, 5c	17,18,19
Môr-ladron	Testun ffeithiol	3c, 4, 8	20,21,22
Y Llyfr Ryseitiau	Detholiad o nofel	3c, 4, 8	23,24
Crwydro Caerdydd	Testun ffeithiol	3c, 3d, 4, 5dd, 5f, 5ff	25, 26
Y Llwynog a'r Frân	Barddoniaeth draddodiadol	3c, 3d, 4, 5d, 5dd, 5ff	27
Y Drudwy	Barddoniaeth draddodiadol	3c, 3d, 4, 5d, 5dd, 5ff	28
Y Beibl	Tudalen gynnwys	3b, 4, 6	29,30,31
Heno, Heno	Tudalen gynnwys	3b, 4, 6	32
Mordaith ar y Titanic	Clawr	3b, 3d, 4, 5ff	33, 34
Geiriadur Gomer I'r Ifanc	Geiriadur	3a, 4, 6	35
Byd Môr-ladron	Mynegai	3b, 4, 6	36
Bessie Catchpole	Dyddiadur	3c, 3d, 4, 5f	37, 38

Rhai Geiriau

gan

Myrddin ap Dafydd

Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Sawl pennill sydd i'r gerdd?
2. Beth medrwch chi ddweud am y ffordd mae'r gerdd wedi cael ei gosod?
3. Beth yw'r patrwm odli?
4. Beth yw ystyr *amser yn hedfan*?
5. Ym mhle byddech chi'n gweld yr archdderwydd?
6. Beth mae'r bardd yn ei wneud yn y gerdd?
7. Beth rydych chi'n credu yw nôd y bardd yn y gerdd?
8. Ydych chi'n hoffi'r gerdd? Pam?

Rwy'n Gwybod

gan
Meirion MacIntyre Huws

Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth medrwch chi ddweud am y ffordd mae'r gerdd wedi cael ei gosod? A oes yma batrymau diddorol?
2. Beth yw ystyr *tynnu coes*?
3. Pe byddech chi'n *tynnu blew o drwyn* rhywun beth byddech chi'n ei wneud?
4. Beth rydych chi'n credu yw nôd y bardd yn y gerdd?
5. Ydych chi'n meddwl bod **Rwy'n Gwybod** yn deitl da i'r gerdd? Rhowch resymau i gefnogi'ch barn.
6. Beth rydych chi'n meddwl am ddiweddglo'r gerdd? Pam?
7. Beth sy'n apelio fwyaf atoch yn y gerdd? Pam?

Ifan Jones Evans

Deunydd darllen:
CIP
Tachwedd 2007

BYD BENDIGEDIG O BEIRIANNAU

Faint ohonoch chi sydd wedi breuddwydio am gael gyrru tryc anferth? Neu injan dân neu ddigar? A beth am hedfan hofrennydd? Neu fod yn berchen ar robot?

Wel, mewn cyfres newydd ar Planed Plant, bydd Peirianhygoel yn rhoi cyfle i rai plant lwcus wneud hynny!

Bydd wyneb newydd yn cyflwyno'r gyfres efo Gwenllian Jones sef Ifan Jones Evans. Cip fu'n holi mwy am ei hanes . . .

Wyddost ti?

- Bod olwyn fawr y *London Eye* yn mesur 135m mewn uchder ac yn troi ar gyflymder o 0.9km yr awr.
- Y Bucketwheat Excavator yw peiriant cloddio mwyaf y byd sy'n mesur lled dau gae pêl-droed ac yn pwyso 13,000 o dunelli, pwysau tua 2166 o eliffantod! Mae dwy swyddfa yn rhan o'r peiriant ac mae'n cael ei ddefnyddio i gloddio glo yn Yr Almaen. Cost y peiriant yma yw £50 miliwn o bunnoedd.
- Mae tanc y fyddin yn gallu teithio ar eira, tywod, mwd, dŵr a thir creigiog gan gyrraedd cyflymder uchaf o 30 milltir yr awr.
- Mae hofrennydd yr heddlu yn costio bron i £4 miliwn ac yn gallu cyrraedd cyflymder o ddwy filltir y funud.

Enw llawn:
Ifan Jones Evans

Oed:
22

O ble wyt ti'n dod?
Pontrhydygroes ger Tregaron

Peiriannau mawr neu beiriannau bach - pa rai sydd orau gen ti?
Peiriannau mawr heb os! Gorau po fwyaf yw'r peiriant!

Wyt ti wedi hoffi peiriannau ers yn ifanc?
Wel, gan bo' fi'n fachgen fferm, rwy' wedi fy magu yng nghanol tractors, Jac Codi Baw a cherbydau eraill ac roeddwn yn arfer eu gyrru o gwmpas y fferm. Yn yr ardal lle rwy'n byw, rwy'n gallu reidio beiciau modur oddi ar yr heol gyda'm ffrindiau sy'n llawer o sbort.

Oeddet ti'n gwybod llawer am beiriannau cyn cyflwyno'r rhaglen?
Ro'n i'n gwybod eitha' lot gan y bues i'n gweithio fel mecanic am ychydig tra'r oeddwn i yn yr ysgol. Rwy'n ymddiddori mewn ceir a fy hoff raglen i yw *Top Gear*.

Beth oedd y ffaith fwyaf anhygoel i ti ddod ar ei thraws tra'n ffilmio'r gyfres?
Yn bendant, y Bucketwheat Excavator, sef peiriant cloddio mwya'r byd sydd i'w gael yn Yr Almaen. O'dd e'n beiriant ENFAWR, yr un hyd â chae pêl-droed o ran ei uchder a'r un lled â dau gae pêl-droed. Gan bo' fi'n ymddiddori mewn pêl-droed, roedd ymweld â fo ar ôl clywed am yr ystadegau yn beth arbennig iawn.

Yn y rhaglen rwyt ti'n gyrru llawer o beiriannau diddorol. Pa un oedd y gorau gennyt ti?
Y Ferrari F430. Dyna'r adrenalin rush mwyaf i mi erioed ei gael. Y peth gorau am y car oedd ei gyflymder - roedd yn gallu gwneud 0 - 60 milltir yr awr mewn amser byr iawn. Mae'n gallu cyrraedd cyflymder o bron i 200 milltir yr awr. Car pwerus dros ben. Ro'n i hefyd yn hoffi'r arogl newydd oedd i'r car - yn ogystal â'r seddi lledr cyfforddus!

Beth yw dy ddiddordebau eraill?
Rwy'n mwynhau pob math o chwaraeon, yn enwedig pêl-droed. Mae chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn fy mywyd i. Ar wahân i wylio *Top Gear* a gyrru beiciau modur, rwy'n hoff iawn o ffermio, gan i mi gael fy ngeni ar fferm a'm magu mewn awyrgylch wledig.

Pa beiriannau wyt ti heb eu gweld, ond fyddet ti wrth dy fodd yn cael tro arnynt?
Y Bugatti Veryon 16.4. Hwn yw car cyflyma'r byd, yr un mwyaf pwerus a'r un mwyaf costus ar hyn o bryd. Yn ôl pob sôn, gall gyrraedd cyflymder o ryw 255 milltir yr awr! Bydden i wrth fy modd yn cael ei yrru. Rwy wedi gweld un o bell pan es i i Silverstone ond eto i fod y tu mewn i un!

Pa fath o gar wyt ti'n ei yrru?
Volkswagen Golf GTTI tri drws lliw coch.



Ifan Jones Evans

Darllenwch y cyfweliad ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth medrwch chi ddweud am gefndir Ifan? Nodwch bedair ffaith.
2. Nodwch bum ffaith am y peiriant *Bucketwheat Excavator*.
3. Ydy Ifan yn hoffi peiriannau? Sut rydyn ni'n gwybod hyn?
4. Beth wyddoch chi am y Ferrari F430?
5. Pe baech chi'n cyfweld Ifan pa gwestiynau byddech chi am ofyn iddo?

Cyfweliad
Meinir Gwilym

Wyt ti'n brysur ar hyn o bryd?
Ar hyn o bryd dwi'n brysur yn cyfansoddi. Dwi'n cael llawer o nosweithiau di gwsg! Mae bron yn flwyddyn ers rhyddhau fy albwm ddiweddaraf 'Sgandal Fain' ac yn bedair blynedd ers rhyddhau fy CD gyntaf, felly dwi wedi bod yn brysur iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Dwi'n cymryd fy amser ar hyn o bryd i sgwennu a chynllunio mymryn at y dyfodol. Dwi hefyd yn gweithio ar raglen geisiadau ar Radio Cymru yn y prynhawn, ac yn mwynhau hynny'n arw. Cysylltwch os ydach chi isho clywed cân!

Disgrifia ddiwrnod arferol yn dy fywyd.
Yn yr wythnos dwi'n codi (er bo fi isho aros yn fy ngwely!), yn cael brecwast, yn ateb e-bostiau ac yn gwneud gwaith papur neu yn chwarae gitâr, cyn mynd i gyflwyno rhaglen y pnawn. Ar benwythnos dwi unai'n canu mewn gig, neu yn mynd i'r stiwdio i recordio, yn mynd allan, yn treulio amser gyda fy nheulu, neu yn sgwennu.

Ar benwythnos gig dwi'n codi, yn cael brecwast, yn printio set list, yn pacio car, yn gwneud yn siŵr fod y band ar eu ffordd, yn mynd i brawf sain, yn aros o gwmpas, ac yn canu!

Ar benwythnos heb gig dwi'n aros yn fy ngwely, ac yn hoffi mynd am dro.

Alli di roi hanes dy blentyndod i ni?
Cefais fy magu yn Llangristiolus, yng nghanol Sir Fôn. Ro'n i'n hoffi gwneud dens, ffraeo efo fy mrodyr, gwneud 'make overs'. Ry'n ni'n deulu agos. Roedd bob amser digon i'w wneud!

Pryd wnes ti ddechrau canu?
Cwestiwn anodd i'w ateb, tebyg i 'pryd wnes ti ddechrau siarad?' Dwi ddim yn siŵr iawn, ond mae canu wedi bod yn rhan annatod o fy mywyd i erioed – yn rhywbeth dwi bob amser wedi ei wneud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd... hymian a gwneud tiwns i fyny yn fy mhen. Adrodd oedd fy mheth i mewn eisteddfodau yn fwy na chanu. Ond roeddwn yn cyfansoddi am flynyddoedd, ac wedi mynd i'r coleg a gwneud ychydig o gyngherddau, penderfynais anfon 'demo tape' at label Gwynfryn Cymunedol. Recordiwyd EP a rhyddhawyd 'Smôcs Coffi a Fodca Rhad' ym mis Rhagfyr 2002 – a dyna ddechrau'r stori.

Ydy dy deulu di'n gerddorol?
Mae'n debyg ei fod o. Mae canu yn rhan o fywyd y teulu, ac yn rhywbeth yr ydan ni'n ei wneud mewn partis ac yn y blaen, fel llawer o deuluoedd eraill mae'n siŵr. Roedd fy nhaid yn ganwr da, a'm taid ar yr ochor arall yn bianydd ac yn arweinydd gwych.

Faint o blant sydd yn y teulu?
Tri ohonan ni. Mae gen i ddau frawd hŷn. Dim rhyfedd fod gen i bynsh dda.

Disgrifia sut y byddi di'n mynd ati i ysgrifennu cân.
Mae pob cân yn wahanol, a'r broses yn amrywio. Weithiau, mae'r alaw yn dod yn gyntaf, a'r geiriau'n dod wedyn. Weithiau daw ychydig eiriau yn gyntaf a'r gweddill wedyn efo'i gilydd. Dro arall mae'r gân yn gyflawn bron cyn cael ei hysgrifennu, ac yn dod allan i gyd efo'i gilydd yn un lli'.

Oes gen ti ffefryn ymysg dy holl ganeuon?
Na, mae bob cân yn golygu ac yn cynrychioli teimladau ac amser gwahanol i mi. Mae'n anodd hoffi neu beidio ã'u hoffi nhw – maen nhw'n rhan ohonof fi. O ran hoff ganeuon i'w perfformio, mae'n newid efo beth mae'r gynulleidfa dwi'n canu iddyn nhw'n ei hoffi.

Pwy yw dy hoff gyfansoddwr di?
Dwi'n edmygu llawer o wahanol gyfansoddwyr am wahanol resymau. Un o fy hoff gyfansoddwyr caneuon poblogaidd yw Paul Simon. Rwy'n ffan mawr o eiriau Tecwyn Ifan hefyd.

Oes 'na unrhyw beth doniol / ofnadwy wedi digwydd i ti ar lwyfan?
Llawer o bethau. Dwi wedi anghofio geiriau, neu ganu'r geiriau anghywir a'r gynulleidfa yn canu'r geiriau iawn, dwi wedi anghofio plwgio fy ngitâr i mewn, wedi bron â syrthio wrth berfformio, wedi colli fy esgid... bob math o bethau gwirion, ond dim byd ofnadwy.

Beth yw dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol?
Bydd caneuon newydd allan yn fuan, a dwi'n canolbwyntio ar gyfansoddi ar hyn o bryd. Bydd gigs dros y Dolig, a chofiwch bydd unrhyw fanylion ar meinirgwilym.com
Bydd y wefan hefyd yn cael ei huwchraddio cyn y Dolig.

Beth yw dy freuddwyd ar gyfer y dyfodol?
Fy unig freuddwyd ydi cael yr iechyd i wneud yr hyn ydw i eisiau, ac i wneud fy rhan.

Oes yna unrhyw beth fuaset ti'n ei wneud yn wahanol petaet yn cael y cyfle eto?
Na. Un cyfle yr ydan ni'n ei gael mewn bywyd. Does dim pwrpas mewn difaru, dim ond dysgu o'n camgymeriadau a cheisio gwneud ein gorau a bod yn deg bob amser.

Pa gyngor fuaset ti'n ei roi i berson ifanc sydd am fod yn ganwr neu'n gantores broffesiynol?
Creda ynot ti dy hun. Diolcha am bob cymorth, a gwerthfawroga bob cyfle. Gwna dy orau, a chadw dy hunaniaeth.

Cyfweliad: Afryl Davies

Deunydd darllen:
CIP
Hydref 2006

Meinir Gwilym

Darllenwch y cyfweliad ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pwy yw Meinir Gwilym?
2. Pa fath o berson yw hi? Rhestrwch bum peth.
3. Sut mae hi'n mynd ati i gyfansoddi cân?
4. Pa gyngor sydd gan Meinir i berson ifanc?
5. Beth rydych chi'n meddwl yw ystyr *hunaniaeth*?
6. Pe baech chi'n cyfweld Meinir pa gwestiynau byddech chi am ofyn iddi?

Dolbedw,
Yr Hen Ffordd,
Llandysul,
Ceredigion,
SA43 3AB
24ain Chwefror

Annwyl Siwan,

Sut wyt ti? Sut mae pethau'n mynd? Gobeithio dy fod yn iawn ac yn setlo i mewn i'r ysgol newydd. Sut le yw Abertawe? Ydy dy dad yn hapus yn ei waith?

Mae popeth yr un peth yma. Siôn a Rhys yn niwsans yn ôl yr arfer ac ysgol heb newid rhyw lawer chwaith, oni bai am y ffaith nad wyt ti yma. Rydyn ni wedi dechrau ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Gylch yn barod. Mae Mrs Jones wrth ei bodd yn ein dysgu i ganu. Wyt ti'n mynd i gystadlu eleni? Mae gennym ni barti llefaru a pharti deulais.

Mae hi'n brysur gyda ni ar y fferm hefyd. Rydyn ni yng nghanol yr wyna. Mae gen i un oen swci'n barod a'i henw yw Dot. Mae ganddi wlân gwyn â smotyn o ddu ar ei bron. Mae hi'n bert ofnadwy. Rydw i'n hoffi'r adeg yma o'r flwyddyn oni bai am orfod codi'n gynnar. Mae'n rhaid i Dot fach gael llaeth cyn i mi fynd i'r ysgol.

Mae Sara'n dathlu ei phen-blwydd fory. Rydyn ni'n mynd i'r pwll nofio ar ôl ysgol ac yna yn ôl i'w thŷ hi am swper. Trueni dy fod di ddim yma i ddod gyda ni.

Wel, gobeithio y gwnei di ateb fy llythyr yn fuan.

Cofion annwyl atat,

Elan

xx

36 Heol Y Wawr,
Ger-y-Tawe,
Abertawe,
SA1 1MA
3ydd o Fawrth

Annwyl Elan,

Sut wyt ti? Diolch yn fawr am dy lythyr. Roedd hi'n braf iawn clywed am bawb a phopeth.

Rydw i'n iawn diolch ac yn dechrau setlo erbyn hyn. Mae hi'n wahanol iawn yma, cofia, i fyw yn y pentre lle mae pawb yn adnabod ei gilydd. Does neb yn dweud "helo" wrth ei gilydd wrth gerdded lawr y stryd yma.

Rydw i wedi dechrau yn yr Ysgol Gymraeg ac wedi gwneud ffrindiau gyda thair o ferched—Chloe, Siân ac Elen. Mae yna ddau ddeg chwech yn ein dosbarth ni—mwy na beth sy yn ysgol gyfan Henffordd! Mae hynny yn anodd i ddod yn gyfarwydd ag ef. Dydw i ddim wedi dysgu enwau pawb yn y dosbarth eto heb sôn am blant yr ysgol! Mae dros dri chant yma! Mae ein hathrawes ddosbarth ni, Mrs Roberts, yn neis iawn. Dydw i ddim yn hoffi'r cinio ysgol—mae cinio Anti Lil Cwc yn llawer neisach! Rwyt ti'n lwcus!

Rydw i'n gweld eisiau gallu dod ar gefn fy meic lan atoch chi i'r fferm. Mae Mam yn dweud nad yw hi'n saff i fi fynd i'r un man ar fy mhen fy hun fan hyn. Gobeithio bod yr wyn bach yn iawn a dy fod yn edrych ar ôl Dot yn dda!

I ateb dy gwestiwn di, ydw, rydw i'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod. Rydw i wedi ymuno â chôr yr ysgol. Mae canu mewn côr yn wahanol iawn i ganu mewn parti bach o ddeg disgybl. Mae hanner cant ohonon ni yn y côr!

Gobeithio y cei di gyfle i ddod lawr i aros pan ddaw'r gwyliau. Mae digon o bethau i'w gwneud yma. Fe allwn ni fynd i'r sinema ac i fowlio deg—maen nhw ar bwys ei gilydd ac maen nhw'n wych.

Diolch am gadw mewn cysylltiad.

Cofia fi at bawb yn enwedig dy frodyr bach!

Hwyl fawr am y tro,

Siwan

xx

Elan a Siwan

Darllenwch y llythyron ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pwy yw'r ddwy ffrind?
2. Sut mae'r ddwy yn adnabod ei gilydd? Sut rydych chi'n gwybod hyn?
3. Pam mae Siwan wedi gorfod symud i Abertawe?
4. Ydych chi'n credu bod Siwan yn hapus yn ei chartref newydd? Pam rydych chi'n meddwl hyn?
5. Beth wyddoch chi am Ysgol Gynradd Henffordd?
6. Nodwch bum peth rydych chi'n ei wybod am Elan.
7. Pa bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng Henffordd ac Abertawe. Rhestrwch bum peth.

Eisteddai'r hen sipsi, Alff Boswel, ar siafft ei garafán, yn ceisio sbïo trwy'r tywyllwch o'i flaen. Disgynnai'r glaw yn ddidrugaredd ar ei wyneb, ac fe redai dros ei war i lawr ei gefn o dan ei grys carpiog. Fe deimlai mor oer â thalp o rew. Fflachiodd mellten fforchog ar draws yr awyr gan oleuo'r wlad i gyd. Yn ei golau, gwelodd yn union o'i flaen, ar y chwith, hen fwthyn Glanrhyd. Gwyddai wedyn ei fod yn nesu at y tir comin yn ymyl yr afon, lle gallai aros dros nos, heb gael ei erlid gan neb.

Roedd ef wedi bod y ffordd honno ugeiniau o weithiau yn ystod ei oes hir. Ar y darn comin wrth ymyl yr afon, roedd Sara, ei ferch, wedi marw ar enedigaeth plentyn. Dim ond dwy-ar-hugain oedd hi pan fu farw, a chan mai hi oedd ei unig ferch, a channwyll ei lygad, nid oedd yr hen Alff wedi gallu maddau i'r Drefn am ei dwyn mor ifanc oddi wrtho.

Ar ôl colli Sara roedd yr hen ŵr wedi mynd yn greadur sarrug ac anghyfeillgar. Pan geisiai rhywun ddweud gair caredig wrtho, fe fyddai'n siŵr o gael ateb cas, anghwrtais ganddo. Ac o dipyn i beth fe gefnodd y sipsiwn eraill arno, gan ei adael yn llonydd i fynd ei ffordd ei hun.

Ond er bod Alff wedi chwerwi pan fu farw ei ferch, roedd e wedi magu'r baban yn dyner. Roedd e wedi bod yn dad ac yn fam i blentyn Sara — sef Tim — a gysgai'n dawel y funud honno y tu mewn i'r garafan. Fel roedd e unwaith yn meddwl y byd o'i ferch, roedd e nawr yn meddwl y byd o Tim, ei wyr pedair-ar-ddeg oed.

Roedd e wedi ei weld yn tyfu'n fachgen cryf, er mai un bychan o'i oed oedd e, ac roedd e wedi dysgu holl ddoethineb y sipsiwn iddo. Gallai Tim wneud basgedi o wiail glan-yr-afon bron cystal â'i ddat-cu, ac fe allai osod magl ar lwybrau'r cwningod yn y coed a'r caeau. Ac fe allai farchogaeth ceffylau. Roedd hynny yn well na dim ganddo!

Detholiad allan o:
Tân ar y Comin
T Llew Jones

Alff Boswel

Darllenwch y portread ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pa fath o noson yw hi? Sut rydych chi'n gwybod hyn?
2. Beth yn eich barn chi yw sipsi?
3. Ydy Alff Boswel yn hen? Pa eiriau ac ymadroddion mae'r awdur yn eu defnyddio i ddweud hyn wrthon ni?
4. Beth wnaeth newid bywyd y sipsi am byth?
5. Pa fath o berson yw Alff Boswel? Pam rydych chi'n meddwl hyn? Chwiliwch am nifer o enghreifftiau i gefnogi'ch safbwynt.
6. Ydy'r disgrifiad o'r cymeriad yn un da? Pam rydych chi'n meddwl hyn?

Crempog Cip...

Os wyt ti'n un sy'n hoffi crempogau, rwyt ti'n siŵr o fod yn gwybod mai dydd Mawrth 5 Chwefror ydy Dydd Mawrth yr Ynyd, neu Ddydd Mawrth Crempog. Mae hanes hir yn perthyn i Ddydd Mawrth Crempog ac mae crempogau yn cael eu bwyta gan bobl o bedwar ban y byd bob mis Chwefror!

Dyma rai ffeithiau crempogaidd i ti...

Dydd Mawrth Crempog yw'r diwrnod olaf un cyn y Grawys. Y Grawys ydi'r 40 diwrnod cyn y Pasg.

Yn draddodiadol, doedd neb yn bwyta bwydydd melys yn ystod y Grawys. Felly ar Ddydd Mawrth Crempog, roedd pawb yn defnyddio eu holl gynhwysion melys i goginio gwledd o grempogau!

Mardi Gras (Dydd Mawrth Tew!) yw'r enw Ffrengig ar gyfer Diwrnod Crempog. Cynhelir sawl carnifal Mardi Gras enwog dros y byd i gyd bob blwyddyn.

Cynhelir ras grempogau mewn sawl gwlad. Y gamp yw rhedeg, gan droelli crempog yn yr awyr ar yr un pryd!

Gwnaeth côr o Leipzig o'r enw Ralf Laue dorri record y byd am daflu crempog 416 gwaith mewn dwy funud! Tipyn o gamp!

Pa lenwad fyddi di fel arfer yn mwynhau yng nghanol dy grempog? Mae pobl yn rhoi pob math o bethau rhyfedd yn eu crempogau y dyddiau hyn! Mae lemon a siwgr yn ddewis poblogaidd i lawer, mae eraill yn rhoi jam, triog neu hyd yn oed siocled! Pa gynhwysyn fyddi di yn ei ddewis ar Ddydd Mawrth Crempog eleni tybed?

Beth am roi cynnig ar Grempog Campus **Cip**?

Cynhwysion:

2 wy
4 owns o flawd plaen
7 owns hylifol o lefrith
3 owns hylifol o ddŵr
2 lwy fwrdd o fenyn wedi toddi

Dull:

- Torri'r ddau wy i mewn i bowlen
- Hidlo'r blawd plaen a'i ychwanegu at yr wyau
- Rhoi'r llefrith a'r dŵr gyda'i gilydd mewn jwg
- Ychwanegu'r llefrith a'r dŵr at y blawd a'r wyau fesul tipyn a'u cymysgu'n dda
- Toddi'r menyn a'i ychwanegu at y gymysgedd
- Cymysgu'r cwbl a'i adael yn yr oergell am hanner awr.

I orffen, coginio'r crempog ar y ddwy ochr mewn padell. Cofia ofyn am help oedolyn yn y rhan yma!

Yr unig beth sydd ar ôl i'w wneud wedyn yw eu bwyta gan ddewis unrhyw gynhwysion o dy ddewis i lenwi'r crempog blasus! Mmm!

Deunydd darllen:
CIP
Chwefror 2008

Crempog Cip…

Darllenwch y rysait ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng Dydd Mawrth Crempog a'r Grawys?
2. Beth yw'r enw Ffrengig ar Ddydd Mawrth Crempog?
3. Pa lenwadau sy'n cael eu defnyddio gan amlaf i'w rhoi mewn crempogau?
4. Pa gynhwysion sydd eu hangen i wneud crempog?
5. Ar ôl gwneud y gymysgedd, beth dylid ei wneud nesaf?
6. Beth yw'r enw arall am Ddydd Mawrth Crempog?

Chwarae'n Troi'n Chwerw

"Na, Emyr, chei di ddim tynnu'r beic yna allan o'r sied am o leia mis arall," dywedodd Elen Jones, ei fam, wrtho wrth olchi'r llestri brecwast.

"Ond Mam, fe fydd gwyliau'r haf drosodd erbyn hynny," protestiodd Emyr.

"Dim ond newydd gael y ffliw wyt ti," atebodd Mam, "mae'n rhaid i ti fod yn ofalus."

"Ond mae wythnos ers hynny, Mam, rydw i'n iawn nawr."

"Dyna ddigon," meddai ei fam yn bendant. "Fe gei di fynd am dro am ychydig, ond tyrd yn ôl erbyn cinio am hanner awr wedi deuddeg."

"Iawn," ochneidiodd Emyr.

Roedd Emyr wedi cael llond bol ar ei fam yn ffysian fel hyn drwy'r amser. Roedd hi'n ei drin fel bachgen bach ac yntau'n 12 oed.

Aeth Emyr yn syth i dŷ Geraint, ei ffrind gorau. Roedd y ddau yr un oed ac yn ffrindiau mawr ers blynyddoedd.

Pan gyrhaeddodd Emyr dŷ ei ffrind, roedd Geraint wrthi'n brysur yn pwmpio teiar ei feic.

"Ble mae dy feic di?" gofynnodd Geraint.

"Yn y sied," meddai Emyr yn ddigalon, "dim beic heddiw meddai Mam."

"Ond, rwyt ti'n well erbyn hyn!" dywedodd Geraint gyda syndod yn ei lais.

"Dw i'n gwybod," atebodd Emyr. "Ond does dim pwynt dweud hynny wrth Mam, dydy hi byth yn gwrando arna i."

"Wela i," meddai Geraint. "Wyt ti eisiau mynd am dro i Pant-Du? Fe alla i gerdded a gwthio fy meic. Bydd yn gyfle da i mi weld os ydy'r teiar yma yn dal gwynt."

Cytunodd Emyr.

Cerddodd y ddau i fyny allt Pant-Du. Ar ôl cyrraedd y top, eisteddodd y ddau am amser hir yn siarad am fynd yn ôl i'r ysgol ymhen tair wythnos. Roedd y ddau yn yr un dosbarth yn yr ysgol uwchradd. Roedden nhw hefyd yn chwarae'r trwmped ers blynyddoedd ac yn perthyn i fand yr ysgol. Roedd gan y band gyngerdd pwysig cyn y Nadolig.

Yn sydyn, neidiodd Emyr ar ei draed. "Faint o'r gloch ydy hi?" gwaeddodd.

Edrychodd Geraint ar ei oriawr. "Newydd droi hanner awr wedi un," meddai.

"O na," meddai Emyr. "Dywedodd Mam fod cinio'n barod am hanner awr wedi deuddeg. Rydw i'n hwyr!"

Dechreuodd redeg yn wyllt i lawr y llwybr.

"Hei, Emyr! Aros!" gwaeddodd Geraint ar ei ôl. "Fe fyddi di adref dipyn cynt os gei di reid gen i ar y beic."

"Iawn," atebodd Emyr mewn panic.

Neidiodd y ddau ar y beic, Emyr ar y sedd yn gafael yn dynn am ganol Geraint, a Geraint yn llywio.

Roedd y beic yn mynd yn gyflymach ac yn gyflymach. Ceisiodd Geraint arafu ond doedd y brêcs ddim yn gweithio'n dda iawn. Gwasgodd y brêcs yn galed. Stopiodd y beic, syrthiodd Geraint ac Emyr dros y beic a glanio ar y ffordd galed.

Deunydd darllen:
Chwarae'n Troi'n Chwerw
Papur TASau 2005

Bu rhaid iddyn nhw fynd i'r ysbyty. Doedd Emyr ddim wedi ei anafu'n ddrwg, ond nid felly Geraint. Roedd wedi anafu ei wyneb yn ddrwg. Roedd hefyd wedi colli ei ddannedd blaen. Bu yn yr ysbyty am oriau. Dywedodd y doctor wrtho na fyddai'n gallu chwarae'r trwmped am amser hir iawn.

Ni ddywedodd Elen Jones air o'i phen wrth Emyr yn y car ar y ffordd adref o'r ysbyty. Roedd yn amlwg mewn tymer ddrwg. Ar ôl cyrraedd gartref dywedodd wrth Emyr am beidio â mynd yn agos at Geraint fyth eto.

"Mae'r bachgen yna'n dy arwain i drwbwl o hyd," dywedodd yn gas.

"Ond Mam, Geraint ydy fy ffrind gorau," atebodd Emyr.

"Ddim o hyn ymlaen," meddai ei fam yn gadarn.

Roedd Geraint yn methu â deall pam na ddaeth Emyr i'w weld ar ôl y ddamwain. Aeth i dŷ Emyr sawl gwaith ond doedd neb yn ateb y drws. Ceisiodd ffonio, ond mam Emyr fyddai'n ateb y ffôn ac yn dweud nad oedd Emyr ar gael.

Ym mis Medi, aeth pawb yn ôl i'r ysgol. Ar y bws ysgol, eisteddodd Emyr cyn belled ag y gallai oddi wrth Geraint. Ceisiodd Geraint siarad gydag Emyr ond cerddai Emyr i ffwrdd bob tro heb ddweud dim. Doedd Geraint ddim yn deall y peth. Nid ei fai ef oedd y ddamwain. Ac roedd y ddau ohonyn nhw'n ffrindiau gorau, i fod.



Roedd Emyr yn ei gweld yn rhyfedd iawn yn ymarfer y band heb Geraint. Roedd yn meddwl llawer amdano, ond ni siaradodd gydag ef o gwbl, byddai Mam yn mynd yn wallgo!

Ym mis Hydref, roedd pen-blwydd Geraint yn 13 oed. Cafodd set o ddrymiau yn anrheg gan ei rieni. Roedd wrth ei fodd a daeth ei ffrindiau i gyd i weld y drymiau newydd. Pawb ond Emyr.

Cyn hir, roedd Geraint a rhai o'i ffrindiau wedi dechrau grŵp. Roedden nhw'n ymarfer yn y garej bob nos ac roedden nhw'n cael llawer o hwyl.

Un noson, daeth cnoc ar ddrws Geraint. Emyr oedd yno.

"Helo, Geraint," dywedodd gan edrych i lawr ar ei draed.

"Haia," atebodd Geraint yn swta. "Beth wnest ti, taro dy ben yn y ddamwain beic ac anghofio pwy oedd dy ffrind gorau di?"

"Na," atebodd Emyr. "Mae'n ddrwg gen i. Ond dywedodd Mam wrtha i am chwilio am ffrind arall yn dy le di."

"Ac wrth gwrs mae'n rhaid gwrando ar beth mae Mam yn ei ddweud bob amser," meddai Geraint.

"Paid â bod fel 'na, Geraint," meddai Emyr. "Dydy Mam ddim yn gwybod fy mod i yma heno, neu fe fuaswn mewn trwbwl. Mae'r bachgen sydd yn chwarae drymiau yn y band yn rhoi'r gorau iddi. Fyddet ti'n hoffi dod i chwarae drymiau yn ei le?"

"Dim diolch," atebodd Geraint.

"Pam?" gofynnodd Emyr. "Rydyn ni'n ffrindiau ers blynyddoedd, mi fydden ni'n gallu cael hwyl eto yn y band, heb i Mam wybod dim."

"Na," dywedodd Geraint yn bendant. "Mi ydw i'n rhy brysur efo'r grŵp. Mae ffrindiau da yn aros gyda'i gilydd drwy bopeth. Cer adre at Mami!"

Aeth Geraint i'r tŷ a chau'r drws.

Chwarae'n Troi'n Chwerw

Darllenwch y stori ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth sydd gan Emyr a Geraint yn gyffredin? Nodwch bedair ffaith.
2. "Mae Mam Emyr yn rhy llym."
   Ydych chi'n cytuno â'r gosodiad? Defnyddiwch wybodaeth o'r testun i gefnogi eich syniadau.
3. Sut mae teimladau Emyr yn newid yn ystod y stori?
4. Sut mae teimladau Geraint yn newid yn ystod y stori?
5. Ydy '*Chwarae'n Troi'n Chwerw*' yn deitl da i'r stori?
6. Beth sy'n gwneud ffrind da? Nodwch bum rheswm gan eu gosod yn ôl eu trefn pwysigrwydd.

Môr-ladron

Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn byw yn ystod 1500-1700. Dynion lliwgar eu gwisg ond creulon oedd llawer ohonynt. Mae'r tabl hwn yn sôn am bedwar môr-leidr.

Enw:	Dyddiadau:	Hanes:
Tomos Prys	1564-1634	Mab hynaf Dr Elis Prys, Plas Iolyn ger Ysbyty Ifan. Am gyfnod bu'n byw ar Ynys Enlli. Roedd hyn yn gyfleus iddo tra oedd yn fôr-leidr. Ar ôl marw ei dad aeth yn ôl i Blas Iolyn i fyw. Bu'n briod ddwy waith. Enw ei wraig gyntaf oedd Margaret ac enw'r ail wraig oedd Jane. Teithiai i Lundain yn aml. Roedd yn enwog yn ei gyfnod am ysgrifennu barddoniaeth ac mae sôn am fywyd Llundain yn ei farddoniaeth. Claddwyd yn Ysbyty Ifan ar 12 Awst, 1634.
Pirs Griffith	1568-1628	Mab Syr Rhys Griffith, teulu'r Penrhyn ger Bangor. Mae sôn iddo fod yn gweithio ar y môr gyda Tomos Prys, Plas Iolyn. Gwyddom mai ef oedd wedi cymryd drosodd y llong 'Spearanza' o Sbaen a dod â hi i mewn i Borth Penrhyn ym Mangor. Ar ei bwrdd roedd llwyth o olew, sidan a nwyddau eraill. Collodd lawer o'i diroedd a'i gyfoeth. Credir iddo farw yn Llundain.
Harri Morgan	1635-1688	Nid oes neb yn gwybod pwy oedd rhieni Harri Morgan, ond ganwyd ef yn y Fenni. Pan oedd tua ugain oed ymfudodd i Ynys Barbados yn India'r Gorllewin. Ar ôl cyfnod yno symudodd i Jamaica. Teithiodd lawer yn y rhan hon o'r byd fel môr-leidr ac fe gofir yn arbennig am ei orchest yn gorchfygu tref Panama. Enw ei wraig oedd Elisabeth. Yn 1674, cafodd ei wneud yn Syr Harri Morgan ac yn ddirprwy-lywodraethwr ar Jamaica. Cafodd ei gladdu yn Port Royal ar 26 Awst, 1688.
Bartholomew Roberts	1682- 1722	Mab i glocsiwr o Gasnewydd Bach yn Sir Benfro oedd Bartholomew Roberts. Roedd yn llongwr dewr iawn a'i ofn ar sawl capten llong. Pan fu farw, ei ddymuniad oedd cael ei daflu i'r môr yn ei ddillad môr-leidr lliwgar. Roedd pawb yn ei adnabod wrth yr enw Barti Ddu. Ysgrifennodd T. Llew Jones lyfr a cherdd amdano.

© Hawlfraint ACAC 1997

Deunydd darllen:
Cyn bapur TASau Cymru a'r Môr (1997)

Môr-ladron

Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn byw yn ystod 1500-1700. Dynion lliwgar eu gwisg ond creulon oedd llawer ohonynt. Mae'r tabl hwn yn sôn am bedwar môr-leidr.

Enw:	Dyddiadau:	Hanes:
Tomos Prys	1564-1634	Mab hynaf Dr Elis Prys, Plas Iolyn ger Ysbyty Ifan. Am gyfnod bu'n byw ar Ynys Enlli. Roedd hyn yn gyfleus iddo tra oedd yn fôr-leidr. Ar ôl marw ei dad aeth yn ôl i Blas Iolyn i fyw. Bu'n briod ddwy waith. Enw ei wraig gyntaf oedd Margaret ac enw'r ail wraig oedd Jane. Teithiai i Lundain yn aml. Roedd yn enwog yn ei gyfnod am ysgrifennu barddoniaeth ac mae sôn am fywyd Llundain yn ei farddoniaeth. Claddwyd yn Ysbyty Ifan ar 12 Awst, 1634.
Pirs Griffith	1568-1628	Mab Syr Rhys Griffith, teulu'r Penrhyn ger Bangor. Mae sôn iddo fod yn gweithio ar y môr gyda Tomos Prys, Plas Iolyn. Gwyddom mai ef oedd wedi cymryd drosodd y llong 'Spearanza' o Sbaen a dod â hi i mewn i Borth Penrhyn ym Mangor. Ar ei bwrdd roedd llwyth o olew, sidan a nwyddau eraill. Collodd lawer o'i diroedd a'i gyfoeth. Credir iddo farw yn Llundain.
Harri Morgan	1635-1688	Nid oes neb yn gwybod pwy oedd rhieni Harri Morgan, ond ganwyd ef yn y Fenni. Pan oedd tua ugain oed ymfudodd i Ynys Barbados yn India'r Gorllewin. Ar ôl cyfnod yno symudodd i Jamaica. Teithiodd lawer yn y rhan hon o'r byd fel môr-leidr ac fe gofir yn arbennig am ei orchest yn gorchfygu tref Panama. Enw ei wraig oedd Elisabeth. Yn 1674, cafodd ei wneud yn Syr Harri Morgan ac yn ddirprwy-lywodraethwr ar Jamaica. Cafodd ei gladdu yn Port Royal ar 26 Awst, 1688.
Bartholomew Roberts	1682- 1722	Mab i glocsiwr o Gasnewydd Bach yn Sir Benfro oedd Bartholomew Roberts. Roedd yn llongwr dewr iawn a'i ofn ar sawl capten llong. Pan fu farw, ei ddymuniad oedd cael ei daflu i'r môr yn ei ddillad môr-leidr lliwgar. Roedd pawb yn ei adnabod wrth yr enw Barti Ddu. Ysgrifennodd T. Llew Jones lyfr a cherdd amdano.

Deunydd darllen:
Cyn bapur TASau Cymru a'r Môr (1997)

Gwir neu gau?

1. Roedd y môr-ladron yn byw yn ystod y cyfnod 1500—1700.
1. Mab i glocsiwr o Gasnewydd Bach Sir Benfro oedd Bartholomew Roberts.
3. Tra roedd Tomos Prys yn fôr -leidr roedd yn byw ar Ynys Manaw.
4. Roedd Tomos Prys yn enwog yn ei gyfnod am ysgrifennu barddoniaeth.
5. Cafodd Harri Morgan ei eni yn y flwyddyn 1688.
6. Ysgrifennodd T Llew Jones lyfr a cherdd am Barti Ddu.
7. Mab Syr Rhys Griffith, Teulu'r Penrhyn ger Bangor, oedd Pirs Griffith.
8. Daeth Harri Morgan yn enwog am gael ei adnabod fel Barti Ddu.
9. Dynion lliwgar eu gwisg ond creulon oedd llawer o'r môr-ladron.
3. Pan fu farw Bartholomew Roberts, ei ddymuniad oedd cael ei gladdu ym mynwent Eglwys y Plwyf.
4. Cafodd Harri Morgan ei gladdu yn Port Royal ym 1688.
5. Bu farw Pirs Griffith yn y flwyddyn 1620.

Môr-ladron

Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn byw yn ystod 1500-1700. Dynion lliwgar eu gwisg ond creulon oedd llawer ohonynt. Mae'r tabl hwn yn sôn am bedwar môr-leidr.

Enw:	Dyddiadau:	Hanes:
Tomos Prys	1564-1634	Mab hynaf Dr Elis Prys, Plas Iolyn ger Ysbyty Ifan. Am gyfnod bu'n byw ar Ynys Enlli. Roedd hyn yn gyfleus iddo tra oedd yn fôr-leidr. Ar ôl marw ei dad aeth yn ôl i Blas Iolyn i fyw. Bu'n briod ddwy waith. Enw ei wraig gyntaf oedd Margaret ac enw'r ail wraig oedd Jane. Teithiai i Lundain yn aml. Roedd yn enwog yn ei gyfnod am ysgrifennu barddoniaeth ac mae sôn am fywyd Llundain yn ei farddoniaeth. Claddwyd yn Ysbyty Ifan ar 12 Awst, 1634.
Pirs Griffith	1568-1628	Mab Syr Rhys Griffith, teulu'r Penrhyn ger Bangor. Mae sôn iddo fod yn gweithio ar y môr gyda Tomos Prys, Plas Iolyn. Gwyddom mai ef oedd wedi cymryd drosodd y llong 'Spearanza' o Sbaen a dod â hi i mewn i Borth Penrhyn ym Mangor. Ar ei bwrdd roedd llwyth o olew, sidan a nwyddau eraill. Collodd lawer o'i diroedd a'i gyfoeth. Credir iddo farw yn Llundain.
Harri Morgan	1635-1688	Nid oes neb yn gwybod pwy oedd rhieni Harri Morgan, ond ganwyd ef yn y Fenni. Pan oedd tua ugain oed ymfudodd i Ynys Barbados yn India'r Gorllewin. Ar ôl cyfnod yno symudodd i Jamaica. Teithiodd lawer yn y rhan hon o'r byd fel môr-leidr ac fe gofir yn arbennig am ei orchest yn gorchfygu tref Panama. Enw ei wraig oedd Elisabeth. Yn 1674, cafodd ei wneud yn Syr Harri Morgan ac yn ddirprwy-lywodraethwr ar Jamaica. Cafodd ei gladdu yn Port Royal ar 26 Awst, 1688.
Bartholomew Roberts	1682- 1722	Mab i glocsiwr o Gasnewydd Bach yn Sir Benfro oedd Bartholomew Roberts. Roedd yn llongwr dewr iawn a'i ofn ar sawl capten llong. Pan fu farw, ei ddymuniad oedd cael ei daflu i'r môr yn ei ddillad môr-leidr lliwgar. Roedd pawb yn ei adnabod wrth yr enw Barti Ddu. Ysgrifennodd T. Llew Jones lyfr a cherdd amdano.

Deunydd darllen:
Cyn bapur TASau Cymru a'r Môr (1997)

✓ Gwir neu gau? ✗ Roedd y môr-ladron yn byw yn ystod y cyfnod 1500—1700.	✓ Gwir neu gau? ✗ Mab i glocsiwr o Gasnewydd Bach, Sir Benfro oedd Bartholomew Roberts.	✓ Gwir neu gau? ✗ Tra oedd Tomos Prys yn fôr-leidr roedd yn byw ar Ynys Manaw.
✓ Gwir neu gau? ✗ Roedd Tomos Prys yn enwog yn ei gyfnod am ysgrifennu barddoniaeth.	✓ Gwir neu gau? ✗ Cafodd Harri Morgan ei eni yn y flwyddyn 1688.	✓ Gwir neu gau? ✗ Ysgrifennodd T Llew Jones lyfr a cherdd am Barti Ddu.
✓ Gwir neu gau? ✗ Mab Syr Rhys Griffith, teulu'r Penrhyn ger Bangor, oedd Pirs Griffith.	✓ Gwir neu gau? ✗ Daeth Harri Morgan yn enwog am gael ei adnabod fel Barti Ddu.	✓ Gwir neu gau? ✗ Dynion lliwgar eu gwisg ond creulon oedd llawer o'r môr-ladron.
✓ Gwir neu gau? ✗ Pan fu farw Bartholomew Roberts, ei ddymuniad oedd cael ei gladdu ym mynwent Eglwys y Plwyf.	✓ Gwir neu gau? ✗ Cafodd Harri Morgan ei gladdu yn Port Royal ym 1688.	✓ Gwir neu gau? ✗ Bu farw Pirs Griffith yn y flwyddyn 1620.

Deffrodd Gwiddan bore drannoeth yn teimlo'n flinedig iawn. Doedd hi ddim wedi cysgu llawer. Cafodd un freuddwyd gas ar ôl y llall—breuddwydion am ei mam-gu, am y Llyfr Ryseitiau ac am bethau tywyll, annifyr. Gorweddai yn ei gwely, yn ceisio datod y cwlwm breuddwydion oedd yn dal i droelli yn ei phen.

"Gwiddan!" galwodd ei thad o waelod y grisiau. "Brecwast yn barod!"

Cododd Gwiddan yn araf o'r gwely, fel hen fenyw flinedig. Cofiai iddi weld ei mam-gu yn codi yn yr un ffordd yn union yn ystod y flwyddyn neu ddwy cyn iddi farw. Roedd fel petai bywyd wedi mynd yn ormod o ymdrech iddi, a dyna'n union sut y teimlai Gwiddan y bore hwn—fel petai bywyd, yn sydyn reit, wedi troi'n hynod o ddifrifol.

Wrth iddi wthio'i thraed i mewn i'w sliperi, fe welodd hi'r Llyfr Ryseitiau yn gorwedd ar lawr ar bwys y gwely. Dyna ryfedd. Cofiai Gwiddan ei bod wedi taflu'r llyfr o dan y gwely wedi iddi ruthro i mewn o'r ardd neithiwr. Syllodd ar y llyfr. Roedd e wedi symud, doedd dim dwywaith am hynny, ac roedd e hefyd ar agor led y pen. Ofnai Gwiddan blygu i edrych ar y dudalen yn fanwl, ond am ryw reswm teimlai hefyd nad oedd dewis ganddi.

Cyrcydodd, gan bwyso ar ei dwylo. Roedd y dudalen wedi'i haddurno'n brydferth iawn, gyda chlymau Celtaidd euraidd ym mhob cornel. Saethodd ei llygaid i dop y dudalen i chwilio am deitl— "Swyn datguddio …" Roedd y llyfr ryseitiau'n amlwg yn gwybod beth oedd ar ei meddwl.

"Does gen i ddim amser nawr …" mwmialodd hi'n grac, gan godi a chamu dros y llyfr cyn rhuthro i lawr y grisiau.

"Bore da," cyfarchodd ei thad hi wrth iddi gyrraedd y gegin. "Ti'n edrych yn flinedig—gysgaist ti'n iawn?"

"Do, diolch" atebodd Gwiddan yn euog, cyn mynd ati i daenu jam ar ei thost.

Wrth iddi eistedd a chnoi'r tost yn araf, roedd hi hefyd yn cnoi cil dros freuddwydion y noson cynt. Cofiai iddi freuddwydio ei bod hi'n sefyll wrth ymyl llyn mawr. Roedd y dŵr yn llyfn, a llonyddwch perffaith ar yr wyneb gwyrdd. Gwyliai'r dŵr, gan syllu i galon y dyfroedd, fel petai hi mewn perlewyg.

Yn sydyn, wrth iddi wthio crwstyn y tost i'w cheg, cofiodd am fanylyn arall a rhewodd. Yn y freuddwyd, roedd hi wedi siarad â'r llyn! Wel, nid gyda'r llyn yn union, ond gyda'i mam-gu. Roedd yn rhyfedd, ac yn anodd i'w esbonio. Roedd tonnau wedi codi ar wyneb y dŵr, a'r tonnau hynny'n cario llais Mam-gu. A'r un oedd y neges gyda phob ymchwydd, "Cer i weld Magwen, cer i weld Magwen, cer i weld Magwen…."

"Gwiddan!" Torrodd llais ei thad ar ei thraws a'i thynnu hi'n ôl i'r presennol, bron fel y byddai slap ar ei boch wedi'i wneud.

"Y? Beth?" atebodd hi'n ddryslyd, gan deimlo'n ddig tuag at ei thad am darfu arni.

"Dere! Y bws ysgol! Mae gen ti bum munud!"

Cododd Gwiddan ei bag dros ei hysgwydd a'i baglu hi allan o'r tŷ fel cath i gythraul. Cyrhaeddodd y bws wrth i'r drysau gau.

(Tudalennau 12—14)



Gwir neu gau?

1. Roedd Gwiddan wedi cael breuddwydion yn llawn atgofion hyfryd am ei mam-gu.
2. Roedd mam-gu Gwiddan wedi marw.
3. Roedd y Llyfr Ryseitiau yn llawn o hen ryseitiau coginio ei mam-gu.
4. Roedd gan Gwiddan ddigon o amser cyn mynd i'r ysgol.
5. Ei thad wnaeth ei dihuno o'i chwlwm breuddwydion.
6. Roedd Gwiddan wedi treulio amser yn yr ardd y noson cynt.
7. Cafodd Gwiddan rawnfwyd i frecwast.
8. Nid llyfr cyffredin oedd y Llyfr Ryseitiau.
9. Breuddwydiodd Gwiddan ei bod wrth ymyl llyn mawr ac roedd llais ei mam-gu'n galw o'r dŵr.
10. Roedd gan Gwiddan ddeng munud yn unig i ddal y bws i'r ysgol.
11. Roedd y Llyfr Ryseitiau wedi ei addurno'n bert.
12. Cyrhaeddodd Gwiddan y bws mewn pryd i fynd i'r ysgol.

Deffrodd Gwiddan bore drannoeth yn teimlo'n flinedig iawn. Doedd hi ddim wedi cysgu llawer. Cafodd un freuddwyd gas ar ôl y llall—breuddwydion am ei mam-gu, am y Llyfr Ryseitiau ac am bethau tywyll, annifyr. Gorweddai yn ei gwely, yn ceisio datod y cwlwm breuddwydion oedd yn dal i droelli yn ei phen.

"Gwiddan!" galwodd ei thad o waelod y grisiau. "Brecwast yn barod!"

Cododd Gwiddan yn araf o'r gwely, fel hen fenyw flinedig. Cofiai iddi weld ei mam-gu yn codi yn yr un ffordd yn union yn ystod y flwyddyn neu ddwy cyn iddi farw. Roedd fel petai bywyd wedi mynd yn ormod o ymdrech iddi, a dyna'n union sut y teimlai Gwiddan y bore hwn—fel petai bywyd, yn sydyn reit, wedi troi'n hynod o ddifrifol.

Wrth iddi wthio'i thraed i mewn i'w sliperi, fe welodd hi'r Llyfr Ryseitiau yn gorwedd ar lawr ar bwys y gwely. Dyna ryfedd. Cofiai Gwiddan ei bod wedi taflu'r llyfr o dan y gwely wedi iddi ruthro i mewn o'r ardd neithiwr. Syllodd ar y llyfr. Roedd e wedi symud, doedd dim dwywaith am hynny, ac roedd e hefyd ar agor led y pen. Ofnai Gwiddan blygu i edrych ar y dudalen yn fanwl, ond am ryw reswm teimlai hefyd nad oedd dewis ganddi.

Cyrcydodd, gan bwyso ar ei dwylo. Roedd y dudalen wedi'i haddurno'n brydferth iawn, gyda chlymau Celtaidd euraidd ym mhob cornel. Saethodd ei llygaid i dop y dudalen i chwilio am deitl— "Swyn datguddio …" Roedd y llyfr ryseitiau'n amlwg yn gwybod beth oedd ar ei meddwl.

"Does gen i ddim amser nawr …" mwmialodd hi'n grac, gan godi a chamu dros y llyfr cyn rhuthro i lawr y grisiau.

"Bore da," cyfarchodd ei thad hi wrth iddi gyrraedd y gegin. "Ti'n edrych yn flinedig—gysgaist ti'n iawn?"

"Do, diolch" atebodd Gwiddan yn euog, cyn mynd ati i daenu jam ar ei thost.

Wrth iddi eistedd a chnoi'r tost yn araf, roedd hi hefyd yn cnoi cil dros freuddwydion y noson cynt. Cofiai iddi freuddwydio ei bod hi'n sefyll wrth ymyl llyn mawr. Roedd y dŵr yn llyfn, a llonyddwch perffaith ar yr wyneb gwyrdd. Gwyliai'r dŵr, gan syllu i galon y dyfroedd, fel petai hi mewn perlewyg.

Yn sydyn, wrth iddi wthio crwstyn y tost i'w cheg, cofiodd am fanylyn arall a rhewodd. Yn y freuddwyd, roedd hi wedi siarad â'r llyn! Wel, nid gyda'r llyn yn union, ond gyda'i mam-gu. Roedd yn rhyfedd, ac yn anodd i'w esbonio. Roedd tonnau wedi codi ar wyneb y dŵr, a'r tonnau hynny'n cario llais Mam-gu. A'r un oedd y neges gyda phob ymchwydd, "Cer i weld Magwen, cer i weld Magwen, cer i weld Magwen….."

"Gwiddan!" Torrodd llais ei thad ar ei thraws a'i thynnu hi'n ôl i'r presennol, bron fel y byddai slap ar ei boch wedi'i wneud.

"Y? Beth?" atebodd hi'n ddryslyd, gan deimlo'n ddig tuag at ei thad am darfu arni.

"Dere! Y bws ysgol! Mae gen ti bum munud!"

Cododd Gwiddan ei bag dros ei hysgwydd a'i baglu hi allan o'r tŷ fel cath i gythraul. Cyrhaeddodd y bws wrth i'r drysau gau.

(Tudalennau 12—14)

Gwir neu gau? Roedd Gwiddan wedi cael breuddwydion yn llawn atgofion hyfryd am ei mam-gu.	Gwir neu gau? Roedd mam-gu Gwiddan wedi marw.	Gwir neu gau? Roedd y Llyfr Ryseitiau yn llawn o hen ryseitiau coginio ei mam-gu.
Gwir neu gau? Roedd gan Gwiddan ddigon o amser cyn mynd i'r ysgol.	Gwir neu gau? Ei thad wnaeth ei dihuno o'i chwlwm o freuddwydion.	Gwir neu gau? Roedd Gwiddan wedi treulio amser yn yr ardd y noson cynt.
Gwir neu gau? Nid llyfr cyffredin oedd y Llyfr Ryseitiau.	Gwir neu gau? Cafodd Gwiddan rawnfwyd i frecwast.	Gwir neu gau? Breuddwydiodd Gwiddan am fod wrth ymyl llyn mawr ac roedd llais ei mam-gu'n galw o'r dŵr.
Gwir neu gau? Roedd gan Gwiddan ddeng munud yn unig i ddal y bws i'r ysgol.	Gwir neu gau? Roedd y Llyfr Ryseitiau wedi ei addurno'n brydferth.	Gwir neu gau? Cyrhaeddodd Gwiddan y bws mewn pryd.

CRWYDRO CAERDYDD GYDA CIP...

Wyt ti'n adnabod pob twll a chornel o brifddinas Cymru? Os mai unwaith yn unig wyt ti wedi ymweld â Chaerdydd, neu os wyt ti'n gyfarwydd iawn â strydoedd y ddinas, mae'r wybodaeth isod yn siŵr o fod o fudd i ti... Ac os wyt ti ar fin mynd lawr i Wersyll yr Urdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd, yna paid anghofio pacio'r copi yma o Cip!

Mae digon o bethau yng Nghaerdydd i dy gadw'n brysur am ddiwrnodau lu! Mae'r dewis yn helaeth felly mae rhywbeth yno at ddant pawb! Dyma rai o atyniadau mwyaf poblogaidd Caerdydd. Pan na wnei di ymweld ag un neu ddau ohonynt pan fyddi di'n galw heibio'r ddinas y tro nesaf?

Taith Stadiwm y Mileniwm

Beth am fynd am dro i weld rhyfeddodau Stadiwm y Mileniwm? Ers iddo agor ym mis Mehefin 1999, mae wedi croesawu mwy na 1.3 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Stadiwm y Mileniwm yw'r stadiwm o dan do mwyaf yn Ewrop. Cei gyfle yno i weld yr ystafelloedd newid, yr ardaloedd ymarfer, yr ystafelloedd meddygol, heb anghofio rhedeg i lawr twnnel y chwaraewyr a dychmygu dy fod yn dod wyneb yn wyneb â 72,500 o bobl! Mae cyfle i wneud rhywfaint o siopa ar ddiwedd y daith felly os wyt ti'n hoff o chwaraeon ai peidio, mae'n werth ymweld â Stadiwm Mileniwm Cymru!

Sain Ffagan

Os hoffet ti fyw mewn oes wahanol am awr neu ddwy yna Sain Ffagan yw'r lle perffaith i ti!

Cei gyfle yno i weld dros 40 o adeiladau gwreiddiol o bob rhan o Gymru er mwyn dangos sut oedd pobl yn arfer byw mewn gwahanol gyfnodau. Mae orielau cynhwysfawr yno yn arddangos bywyd beunyddiol y werin bobl, gwisgoedd ac offer amaethyddol.

Sain Ffagan yw un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf Ewrop, ac fe elli gael blas o'r cyfan yn rhad ac am ddim!

Lluniau: www.cardiffandco.com
a Sain Ffagan

Dyma rai ffeithiau i ti am Gaerdydd...

- Ychydig dros 200 mlynedd yn ôl y dechreuwyd galw'r lle yn 'Caerdydd.' Cyn hynny Caerdyf oedd yr enw sef cyfuniad o Caer a Tyf, ffurf ar enw'r afon Taf.
- Dim ond ym 1955 y daeth Caerdydd yn brifddinas Cymru. Hi yw prifddinas ieuengaf Ewrop.
- Agorwyd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd ym 1949 ac, yn 1978, agorwyd yr ysgol gyfun Gymraeg gyntaf o'r enw Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
- Caerdydd oedd un o'r lleoedd cyntaf ym Mhrydain i ddefnyddio gyrwyr tacsi benywaidd, a hynny nôl ym 1917.
- Mae modd gweld ôl troed dinosoriaid yn yr Amgueddfa Genedlaethol!

Arddangosfa Doctor Who

Mae hwn yn ddewis poblogaidd iawn i lawer sy'n ymweld â Chaerdydd. Mae yno arddangosfeydd newydd sy'n dangos dillad, set ac angenfilod y cyfresi diweddaraf. Os wyt ti'n dilyn y gyfres yna beth am weld os wyt ti'n gwybod yr atebion i gyd yng nghwis *Doctor Who*? Cei di gyfle yno i weld y Tardis ond cofia gadw mewn cof y bydd Daleks yn cuddio yn yr arddangosfa!

Cwch o amgylch y Bae

Os yw'r tywydd yn braf yna beth am fynd am dro ar gwch er mwyn dod i adnabod Bae Caerdydd? Mae'r cwch yn hwylio rhwng y Bae, Penarth a chanol y ddinas. Wrth hwylio, gelli ymweld hefyd ag argae newydd Bae Caerdydd. Dyma ffordd wych o weld y Bae mewn ffordd wahanol ac ymlacio wrth hwylio ar y tonnau!



Taith a Gweithdy Canolfan Mileniwm Cymru

Mewn taith sy'n para awr, gelli ddarganfod rhai o gyfrinachau mwyaf Canolfan y Mileniwm! Cei fynd i fusnesu y tu ôl i'r llenni, yn yr ystafelloedd newid, colur ac ymarfer ayb. Os wyt ti'n lwcus, cei gyfle i gamu ar lwyfan y Ganolfan ei hun! Gelli hefyd fynychu gweithdai drama, cerddoriaeth, celf a chrefft a llawer mwy.

Bws awyr agored

Os yw amser yn brin, y ffordd orau o weld holl atyniadau Caerdydd yw teithio ar fws.

Gelli weld holl ryfeddodau'r brifddinas mewn llai nag awr! Neu fe elli brynu tocyn sy'n para am ddiwrnod cyfan fel bod modd neidio oddi ar y bws er mwyn ymweld ag un atyniad ac yna dal y bws unwaith yn rhagor er mwyn teithio i'r lleoliad nesaf!

Os nad yw'r atyniadau uchod yn ddigon i ti, a dy fod am weld mwy o'r brifddinas, coelia neu beidio mae digonedd o bethau eraill y gelli di eu gwneud yn y ddinas fawr ddiddorol! Cofia ymweld â'r Senedd i fusnesu ym myd y gwleidyddion, Techniquest i ddatblygu dy sgiliau gwyddonol heb anghofio'r Pwll Mawr i ddysgu rhywfaint o hanes glofaol Cymru. Neu os am ymlacio cer am dro i'r sinema neu i fowlio deg am brynhawn o hwyl a sbri!

Os nad oeddet yn gwybod rhyw lawer am Gaerdydd ynghynt, fe ddylet fod yn holl wybodus yn awr! Y tro nesaf yr wyt ti'n ymweld â Chaerdydd, cer â'r dudalen hon yn dy boced a thywys pawb o amgylch holl atyniadau'r ddinas!

Crwydro Caerdydd

Darllenwch y daflen wybodaeth ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Ydych chi'n credu bod Caerdydd yn lle da? Pam rydych chi'n meddwl hyn? Defnyddiwch y wybodaeth o'r testun.
2. Beth yw eich barn chi am Stadiwm y Mileniwm? Ydych chi wedi bod yno?
3. Mae'r erthygl yn sôn am nifer o atyniadau. Beth sy'n apelio fwyaf atoch? Pam?
4. Pa eiriau mae'r awdur yn eu defnyddio i ddwyn perswâd arnom i ymweld â Sain Ffagan?
5. Ydy'r awdur wedi cyflwyno ystod ddigonol o atyniadau yn yr erthygl sy'n apelio at gynulleidfa eang? Trafodwch yr ystod.
6. Beth yw eich barn chi am y daflen wybodaeth. Trafodwch y gosodiad, y cynnwys a'r wybodaeth.
7. Wrth edrych ar y ffeithiau am Gaerdydd, oes rhai ohonynt yn eich synnu chi?
8. Ydych chi'n gwybod rhyw ffeithiau ychwanegol am Gaerdydd neu am Gymru?

Y Llwynog a'r Frân

gan

W. Rhys Nicholas

Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pa ymadroddion yn y gerdd sydd yn cyfleu cyflymder?
2. Am beth y mae'r cadno yn dweud diolch?
3. Mae'r gerdd wedi ei seilio ar chwedl. Beth yn eich barn chi yw chwedl?
4. Pa eiriau mae'r bardd yn eu defnyddio i ddisgrifio'r frân?
5. Eglurwch sut mae'r llinellau a'r penillion wedi eu gosod.
6. Ydych chi'n hoffi'r gerdd? Pam?
7. Rydym yn gyfarwydd â'r gymhariaeth 'mor gyfrwys â'r llwynog'. Beth yn y gerdd sy'n profi hyn?

Y Drudwy

gan

Dafydd Rowlands

Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pwy yw'r ffrindiau plu?
2. Mae'r bardd yn disgrifio un o'r ffrindiau fel 'un trachwantus iawn'. Beth sydd yn gwneud iddo feddwl hyn?
3. Pa eiriau mae'r bardd yn eu defnyddio i ddisgrifio'r eira?
4. Sut mae'r bardd yn disgrifio'r drudwy?
5. Trafodwch ffurf y gerdd a'r patrwm odli.
6. Ydych chi'n hoffi'r gerdd? Pam?
7. Mae'r bardd yn sôn am 'y fraint o gludo llythyr i Gaer Saint'. At beth mae e'n cyfeirio?

Y BEIBL

Cynnwys – Yr Hen Destament

Enw'r Llyfr	*Tudalen*
Llyfr Genesis	1
Llyfr Exodus	45
Llyfr Lefiticus	82
Llyfr Numeri	109
Llyfr Deuteronomium	147
Llyfr Josua	180
Llyfr y Barnwyr	201
Llyfr Ruth	223
Llyfr Cyntaf Samuel	226
Ail Lyfr Samuel	256
Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd	281
Ail Lyfr y Brenhinoedd	309
Llyfr Cyntaf y Cronicl	336
Ail Lyfr y Cronicl	361
Llyfr Esra	392
Llyfr Nehemia	400
Llyfr Esther	413
Llyfr Job	420
Llyfr y Salmau	448
Llyfr y Diarhebion	527
Llyfr y Pregethwr	553
Caniad Solomon	560
Llyfr Eseia	565
Llyfr Jeremiah	623
Llyfr Galarnad	679
Llyfr Eseciel	685
Llyfr Daniel	731
Llyfr Hosea	744
Llyfr Joel	753
Llyfr Amos	757
Llyfr Obadeia	764
Llyfr Jona	765
Llyfr Micha	767
Llyfr Nahum	772
Llyfr Habacuc	775
Llyfr Seffaneia	778
Llyfr Haggai	781
Llyfr Sechareia	783
Llyfr Malachi	791

Cynnwys— Y Testament Newydd

Enw'r Llyfr	*Tudalen*
Yr Efengyl yn ôl Mathew	1
Yr Efengyl yn ôl Marc	34
Yr Efengyl yn ôl Luc	55
Yr Efengyl yn ôl Ioan	91
Actau'r Apostolion	118
Llythyr Paul at y Rhufeiniaid	150
Llythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid	165
Ail Lythyr Paul at y Corinthiaid	179
Llythyr Paul at y Galatiaid	188
Llythyr Paul at yr Effesiaid	193
Llythyr Paul at y Philipiaid	198
Llythyr Paul at Y Colosiaid	201
Llythyr Cyntaf Paul at Y Thesaloniaid	205
Ail Lythyr Paul at y Thesaloniaid	208
Llythyr Cyntaf Paul at Timotheus	210
Ail Lythyr Paul at Timotheus	214
Llythyr Paul at Titus	217
Llythyr Paul at Philemon	219
Y Llythyr at yr Hebreaid	220
Llythyr Iago	230
Llythyr Cyntaf Pedr	234
Ail Lythyr Pedr	238
Llythyr Cyntaf Ioan	241
Ail Lythyr Ioan	245
Trydydd Llythyr Ioan	246
Llythyr Jwdas	247
Datguddiad Ioan	248

Darllenwch y rhestr 'Cynnwys - Yr Hen Destament' ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy'r degfed llyfr yn yr Hen Destament?
2. Enwch bedwar llyfr sy'n dilyn Llyfr y Diarhebion.
3. Pa lyfr sydd ar dudalen 309?
4. Beth ydy'r llyfr olaf yn yr Hen Destament?
5. Pa lyfr yw'r llyfr mwyaf yn yr Hen Destament?
6. Sawl tudalen yw'r llyfr mwyaf?
7. Mae nifer o lyfrau wedi eu henwi ar ôl cymeriadau'r Hen Destament. Enwch rai sydd yn gyfarwydd i chi.
8. Ydych chi'n credu bod y Beibl yn llyfr pwysig? Pam?

Darllenwch y rhestr 'Cynnwys - Y Testament Newydd ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy'r ail lyfr yn y Testament Newydd?
2. Ysgrifennodd Paul nifer o lythyrau. At bwy?
3. Pa lyfr a welir ar dudalen 230?
4. Beth ydy cynnwys y mwyafrif o'r llyfrau?
5. Sawl llyfr sydd yn y Testament newydd?
6. Heblaw am Paul, enwch bedwar person arall a ysgrifennodd lythyrau.
7. Pwy sy'n debygol o ddarllen y Beibl?
8. Ydych chi'n gwybod rhai o storiau'r Beibl?

Llyfr HENO, HENO .....
Casgliad o Straeon Amser Gwely

Cynnwys

Nel y Sbel *Gwyn Thomas* 1

Yr Anghenfil ych-a-fi
Ruth Ainsworth, addaswyd Eluned Ellis Jones 4

Ben Bantam a'r wasgod goch *Ray Evans* 9

Bresychen fawr Mistar Medra *Mair Wynn Hughes* 12

Y blaidd a'r saith myn gafr *adroddwyd gan T.Llew Jones* 16

Pitar y deryn du *Elfyn Pritchard* 18

Sioni ganolig *Moira Miller, addaswyd gan Tegwyn Jones* 22

Deiniol y dewin diog *Loreen Williams* 25

Y ras fawr *addaswyd gan Gwenno Hywyn* 28

Dafydd a'r seren wib *Alys Jones* 32

Bob bob-lliw *Malcolm Carrick, addaswyd gan Jini Owen* 36

Igo-Igi a'r fideo *Rhiannon Ifans* 38

Gwe'r pry' copyn *adroddwyd gan D.J.Williams* 42

Dan y broga *Ray Evans* 44

Octopws Gwenno *Siân Lewis* 48

Y pedwerydd brenin *adroddwyd gan T.Llew Jones* 51

Darllenwch restr Cynnwys Llyfr HENO, HENO.... ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth rydych chi'n meddwl yw pwrpas y rhestr Cynnwys?
2. Nodwch bum stori sy'n ymwneud â byd natur?
3. Beth sy'n gwneud 'Deiniol y Dewin Diog' yn deitl da?
4. Pwy sydd yn berchen ar octopws?
5. Pwy ydy Siân Lewis?
6. Pa stori sy'n apelio fwyaf atoch? Pam?
7. Esboniwch sut mae gwahaniaethu rhwng teitl y stori a'r awdur.
8. Beth rydych chi'n credu yw arwyddocâd teitl y gyfrol?
9. Ydych chi'n credu bod y storiau i gyd yn addas fel straeon amser gwely? Pam?

Fy Hanes i

Dydd Llun, Ebrill 15, 1912

Daeth cnoc sydyn ar y drws. Robert oedd yno. Roedd golwg daer yn ei lygaid. 'Noswaith dda, Miss Brady,' meddai. 'Mae angen i chi wisgo dillad cynnes, a mynd draw i'r Bwrdd Badau. A gofalwch fynd â'ch gwregys achub efo chi.' Miss Brady? Pan glywais i hynny, mi ddechreuais deimlo'n ofnus am y tro cyntaf . . . Mae'n rhaid ei fod wedi sylwi fod golwg ofidus arna i, oherwydd estynnodd ei law allan a chyffwrdd yn ysgafn â 'mraich.

'Dril arferol,' meddai. 'Does dim angen i chi boeni.' Roedd ar fin gadael pan ddywedodd, yn dawel iawn, 'Peidiwch â chymryd gormod o amser, Margaret.' Efallai nad dril oedd hyn, wedi'r cyfan.

Addasiad Eigra Lewis Roberts o destun Ellen Emerson White

Cynllun y clawr: Popperfoto
Cyhoeddwyr: Gwasg Gomer,
Llandysul, Ceredigion SA44 4QL
www.gomer.co.uk

ISBN 1-84323-164-6

£4.95

Fy Hanes i

MORDAITH AR Y TITANIC

Dyddiadur
Margaret Anne Brady, 1912

GOMER

gomer

Fy Hanes i

MORDAITH AR Y TITANIC

Dyddiadur
Margaret Anne Brady, 1912



Addasiad Eigra Lewis Roberts

Mordaith ar y Titanic

Darllenwch y clawr ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy ffurf y nofel hon?
2. Beth ydy'r dyddiad ar ben y broliant?
3. Pwy sy'n cynnal sgwrs yn y detholiad?
4. Beth rydych chi'n credu yw 'Addasiad'?
5. Beth ydy enw'r gyfres?
6. Beth mae enw'r gyfres yn ei awgrymu o ran cynnwys llyfrau'r gyfres?
7. Beth wyddoch chi am y Titanic?
8. Fyddech chi'n hoffi darllen y llyfr? Pam?



Darllenwch y detholiad ar dudalen 81 o 'Geiriadur Gomer i'r Ifanc' ac atebwch y cwestiynau canlynol:



1. Eglurwch beth yw arwyddocâd y geiriau ar ben y dudalen.
2. Disgrifiwch osodiad y llyfr gan gyfeirio at bethau penodol ar y dudalen.
3. Defnyddir byrfoddau mewn geiriadur. Esboniwch beth ydy ystyr rhai ohonynt, e.e. *eb, eg, be*
4. Chwiliwch am y gair **canu**. Eglurwch pam mae rhifau 1 i 5 yn ei ddilyn.
5. Chwiliwch am dri enw gwrywaidd ar y dudalen.
6. Eglurwch beth yw'r geiriau mewn cromfachau.
7. Eglurwch beth ydy pwrpas geiriadur gan nodi o leiaf dri pheth.



Darllenwch y Mynegai ar dudalen 62 o lyfr 'Byd Môr-ladron' ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Enwch dri pheth a welir ar dudalen 12.
2. Ble yn y llyfr y gwelir hanes Victor Hughes?
3. O dan ba ran o'r mynegai y daethoch o hyd i Victor Hughes? Esboniwch y rheswm am y lleoliad.
4. Esboniwch pam mae mwy nag un rhif gyferbyn â 'Groegiaid'.
5. Oes rhywbeth yn y Mynegai yn apelio atoch? Pam?
7. Beth wyddoch chi am fôr-ladron?
8. Beth yw eich barn chi am y ffordd y cyflwynwyd y mynegai yn y llyfr hwn?

Dyddiadur Bessie Catchpole – 1694

Merch ddaeth yn enwog am smyglo oedd Bessie Catchpole. Dyma ran o'i dyddiadur.

Ebrill 21

Yfory byddaf yn mynd ar fy mordaith gyntaf. Mynd ar long Solomon, fy ngŵr. Ef yw'r capten. Teimlo'n nerfus iawn, nid wyf yn gwybod yn iawn sut long yw hi.

Ebrill 22

Cyrraedd y llong. Llawer o ddynion â golwg grac a blin arnynt yn gweithio arni. Pawb yn syllu arnaf yn fy nillad drud. Fi yw'r unig ferch ar y llong.

Mai 3

Wedi bod yn sâl môr ers pum diwrnod – y criw i gyd yn meddwl bod hyn yn ddoniol iawn. Mynd am dro o gwmpas y llong heddiw a chael braw o weld o leiaf dwsin o lygod anferth yn rhedeg o gwmpas.

Hiraeth am fy nheulu, nid oes gobaith o'u gweld am amser hir. Teimlo'n unig iawn. Un o'r criw yn dringo'r mast – wn i ddim sut y gallai wneud rhywbeth mor beryglus – fuaswn i byth yn mentro.

Mai 9

Newydd ddarganfod mai smyglwyr ydy Solomon a'i griw! Wedi cyrraedd tir ers dau ddiwrnod. Pawb ar y llong yn dathlu gwneud ffortiwn yn gwerthu bob math o bethau yn y porthladd.

Rwy'n flin ac yn grac, ni ddylai Solomon fod wedi dod â mi ar y llong yma o gwbl – nid wyf eisiau bod yn rhan o'r twyllo. Mae arnaf gywilydd bod yn wraig iddo.

Mehefin 18

Fis union i heddiw bu farw Solomon. Ei gladdu yn y môr. Wedi cau fy hun yn y caban a chrio am ddyddiau lawer. Tan heddiw.

Heddiw rwyf wedi gwneud penderfyniad pwysig.

Am gymryd drosodd fel capten y llong. Ac yn fwy na hynny, rwyf am fod yn gapten llwyddiannus. Hon fydd y llong smyglo orau ar y môr! Os oedd Solomon yn gallu smyglo, gallaf innau hefyd — mae modd gwneud llawer o arian o'r gwaith yma. Edrych ymlaen at y gwaith yn fawr.

Gorffennaf 19

Fy mywyd wedi newid llawer dros y misoedd diwethaf. Wedi dringo'r mast fy hun am y tro cyntaf heddiw, heb boeni dim! Nid yw'r llygod ar y llong yn codi ofn arnaf erbyn hyn.

Awst 10

Gwneud mwy o arian nag erioed wrth smyglo. Hapus iawn yn gapten llong.

Y môr yw fy nghartref y dyddiau hyn a'r criw yw fy nheulu. Allai ddim dychmygu bywyd heb smyglo.

Deunydd darllen TASau — 2001

Bessie Catchpole

Darllenwch ddyddiadur Bessie Catchpole ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth oedd dyddiad mordaith gyntaf Bessie Catchpole?
2. Ar ddechrau'r daith, mae Bessie yn nerfus iawn. Rhowch resymau am hyn.
3. Ydych chi'n teimlo'n nerfus ar adegau? Pam?
4. Sut mae teimladau Bessie wedi newid yn ystod ei chyfnod ar y môr?
5. Fe wnaeth Bessie benderfyniad pwysig yn ystod y fordaith. Ydych chi'n credu mai hwn oedd y penderfyniad cywir? Rhowch resymau.
6. Mae smyglo'n anghyfreithlon. Beth yw eich barn chi am smyglo?
7. A fuasech chi wedi hoffi bod ar y llong gyda Bessie Catchpole? Pam?
8. Hiraethai Bessie am ei theulu tra roedd ar y môr am fisoedd. Pe byddech chi i ffwrdd am fisoedd, beth buasech chi yn hiraethu amdano?